



Environment
Agency
Asiantaeth yr
Amgylchedd

Gorsafoedd ynni niwclear newydd

Ein penderfyniadau i gyhoeddi Datganiadau Interim o Dderbynioldeb Cynlluniau ar gyfer dau gynllun adweithydd newydd

Beth yw rôl Asiantaeth yr Amgylchedd?

Fel y prif sefydliad sy'n gweithio i ddiogelu'r amgylchedd, ein rôl yw rheoleiddio gollyngiadau a phrosesau gwaredu gwastraff gorsafoedd ynni niwclear yng Nghymru a Lloegr a sicrhau bod eu heffeithiau ar bobl a'r amgylchedd mor fach â phosibl ac yn dderbyniol.

Rôl y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yw rheoleiddio diogelwch ar safleoedd gorsafoedd niwclear.

Gyda'n gilydd, rydym yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd yn cyrraedd safonau uchel o ran diogelwch, diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff.

Sut rydych yn gwneud hyn?

Yn 2007 gwnaethom ni a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ddechrau cydweithio ar broses newydd a ddatblygwyd gennym i asesu cynlluniau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear o'r enw '**Asesu Cynlluniau Cyffredinol**' (ACC). Rydym wedi asesu dau gynllun sef UK EPR™ EDF/AREVA ac AP1000® a gynlluniwyd gan Westinghouse Electric Company.

Beth yw Asesu Cynlluniau Cyffredinol?

Mae Asesu Cynlluniau Cyffredinol (ACC) yn ein galluogi i gymryd rhan yn y broses ar gam cynnar lle y gallwn gael y dylanwad mwyaf, pan allwn ddechrau asesu agweddau amgylcheddol a diogelwch cynlluniau adweithydd cyn i unrhyw geisiadau i adeiladu gorsaf ynni niwclear gael eu gwneud.

Rhown gyngor i'r cynllunwyr ar unrhyw broblemau a nodir gennym fel y gallant hefyd gael eu datrys yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hyn hefyd o fudd i ddarparu ddatblygwyr

gorsafoedd ynni niwclear newydd oherwydd mae'n meithrin eu hyder ac os byddant yn gwneud cynigion penodol o ran safle gan ddefnyddio cynlluniau ACC yna byddant yn fwy tebygol o fod yn dderbyniol i'r rheoleiddwyr niwclear oherwydd y gwaith a wnaed eisoes.

Byddwn yn defnyddio ein gwaith ACC i helpu i lywio ein penderfyniadau ar unrhyw geisiadau sy'n benodol i safleoedd a gawn ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd. Rhaid i ddatblygwyr gael pob math o ganiatâd perthnasol sy'n benodol i safleoedd gennym ni a rheoleiddwyr a chyrrff eraill cyn y gellir gweithredu gorsaf ynni niwclear newydd.

Mae nifer o geisiadau wedi dod i law am drwyddedau amgylcheddol ar gyfer gorsaf ynni niwclear newydd arfaethedig NNB Generation Company yn Hickley Point C yng Ngwlad yr Haf. Ni wnawn gyflwyno trwyddedau ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd oni fydd y cynllun a'i weithredwyr posibl yn cyrraedd y safonau uchel o ran diogelwch, diogelu'r amgylchedd a rheoli gwastraff sy'n ofynnol gennym.

Credwn fod ACC yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd i ni a'r diwydiant niwclear, a'i fod yn rhoi mwy o ddiogelwch i bobl a'r amgylchedd.

Pa effaith a gafodd y digwyddiad yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima yn Japan ar ACC?


Gwnaethom ymestyn ein hasesiad i'n galluogi i ystyried adroddiad y Prif Arolygydd Gosodiadau Niwclear ar oblygiadau Fukushima i'r DU ac ni ddaethom i unrhyw benderfyniadau ynghylch y cynlluniau ym mis Mehefin 2011 fel y bwriadwyd yn wreiddiol.

Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd?

Rydym wedi cwblhau'r asesiadau y gwnaethom ni ac ONR fwrriadu eu gwneud. Rydym yn cyhoeddi ein penderfyniadau a'n hadroddiadau asesu manwl ar b'un a yw cynlluniau'r gorsafoedd ynni niwclear yn dderbyniol ai peidio. Rydym yn fodlon ar agweddau amgylcheddol y ddau gynllun a aseswyd gennym ac rydym yn cyhoeddi Datganiadau interim o Dderbynioldeb Cynlluniau. Rydym wedi nodi dau "Fater ACC" i'r cwmnïau fynd i'r afael â hwy cyn y byddem yn barod i ystyried cyhoeddi Datganiad terfynol o Dderbynioldeb Cynlluniau a chytuno y dylid dechrau adeiladu'r adweithydd niwclear.

A wnaethoch ymgynghori ar eich asesiadau?

Do. Gwnaethom ymgynghori am 16 wythnos rhwng 28ain Mehefin 2010 a 18fed Hydref 2010. Rydym wedi ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd yn ofalus ac maent wedi helpu i lywio ein penderfyniadau ynghylch p'un a yw'r cynlluniau'n dderbyniol ai peidio.




Beth rydych chi'n ei ddweud am gynlluniau gorsafoedd ynni niwclear UK EPR™ ac AP1000®?

Rydym yn fodlon ar agweddau amgylcheddol perthnasol y cynlluniau ac y dylent gyrraedd y safonau uchel a ddisgwyliwn. Rydym yn cyhoeddi Datganiadau interim o Dderbynioldeb Cynlluniau (iSODA) ar gyfer y ddau gynllun. Rydym wedi ystyried yr holl ymatebion i'n hymgyngoriad ac asesiad ONR cyn gwneud penderfyniad terfynol ar dderbynioldeb UK EPR™ a'r AP1000®. Mae ein penderfyniad yn amodol ar ddau "Fater ACC" sy'n ymwneud â phob cynllun, y ddau ar y cyd ag ONR. Mae ONR hefyd wedi nodi nifer o Faterion ACC eraill ar gyfer pob cynllun. Mae'r cwmnïau cynllunio, sef Westinghouse ac EDF/AREVA wedi cynnig Cynlluniau Datrys i fynd i'r afael â'u Materion ACC. Ar y cyd ag ONR, rydym wedi adolygu eu cynlluniau ac o'r farn eu bod yn gredadwy. Ar y cyd ag ONR, mae angen i'r cwmnïau ddatrys yr holl Faterion ACC cyn y byddem yn

cytuno iddynt ddechrau adeiladu'r ynys niwclear o orsaf ynni niwclear newydd.

A yw ACC drosodd? Beth sy'n digwydd nesaf?

Rydym wedi cwblhau'r asesiadau roeddem yn bwriadu eu gwneud ond nid yw ACC wedi cael ei gwblhau eto gan ein bod wedi cyhoeddi datganiadau interim o dderbynioldeb cynlluniau (iSODA). Mae hyn yn golygu ein bod wedi nodi rhai meysydd lle mae angen i gynllunwyr yr adweithyddion wneud rhagor o waith, gan roi rhagor o wybodaeth i ni a datrys materion technegol penodol. Pan fyddwn yn fodlon bod y materion hyn wedi cael eu datrys, byddwn yn adolygu'r 'statws interim' ac, os yw'n briodol, yn cyhoeddi Datganiad terfynol o Dderbynioldeb Cynlluniau (SoDA). Mae'r ffordd rydym ni ac ONR yn mynd i'r afael ag ACC yn gydnaws ac yn yr un modd mae wedi cyhoeddi "Cadarnhad o Dderbyn Cynlluniau" interim. Dim ond pan fydd yr holl Faterion ACC wedi cael eu datrys y bydd y ddau



ohonom yn fodlon i'r gwaith o adeiladu'r adweithydd ddechrau.

Ble y gallaf weld eich dogfennau penderfyniad?

Maent ar gael ar ein gwefan ar ein tudalen ymgynghori
<https://consult.environment-agency.gov.uk/portal/ho/nuclear/gda> neu chwiliwch yn ein catalog cyhoeddiadau am 'acc'
<http://publications.environment-agency.gov.uk>

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth am eich rôl ac 'asesu cynlluniau cyffredinol'?

Mae gwybodaeth am ein gwaith ar ein gwefan ar y cyd www.hse.gov.uk/newreactors a'n gwefan www.environment-agency.gov.uk/nuclear neu www.environment-agency.gov.uk/hinkleypoint

Cysylltu â ni

E-bost: gda@environment-agency.gov.uk



Environment
Agency
Asiantaeth yr
Amgylchedd

New nuclear power stations

Our decisions to issue interim Statements of Design Acceptability for two new reactor designs

What is the Environment Agency's role?

As the leading organisation working to protect the environment, it our job is to regulate discharges and waste disposals from nuclear power stations in England and Wales and ensure their impact on people and the environment is minimised and acceptable.

The Office for Nuclear Regulation's (ONR) role is to regulate safety and security at nuclear power stations.

Together we are responsible for making sure that **any new nuclear power stations meet high standards of safety, security, environmental protection and waste management.**

How are you doing this?

In 2007 we and the Office for Nuclear Regulation started working together on a new process that we developed for assessing nuclear power station designs called '**Generic Design Assessment**' (GDA). We've assessed two designs - EDF/AREVA's UK EPR™ and the AP1000® designed by Westinghouse Electric Company.

What is Generic Design Assessment?

Generic Design Assessment (GDA) allows us to get involved at an early stage where we can have most influence, when we can begin assessing the environmental, safety and security aspects of reactor designs before any applications to build a nuclear power station are made.

We provide advice to the designers about any problems we identify so that these can also be solved effectively and efficiently. This also helps potential developers of new nuclear power

stations because it increases their confidence that if they make site specific proposals using the GDA designs these are more likely to be acceptable to the nuclear regulators because of the work already undertaken.

We will use our GDA work to help inform our decisions on any site specific applications we receive for new nuclear power stations. Developers must obtain all relevant site specific permissions from us and other regulators and bodies before a new nuclear power station could be operated.

We have received a number of applications for environmental permits for NNB Generation Company's proposed new nuclear power station at Hinkley Point C in Somerset. We will not issue permits for new nuclear power stations unless the design and its potential operators meet the high safety, security, environmental and waste management standards that we require.

GDA improves efficiency and effectiveness for us and the nuclear industry, and delivers greater protection for both people and the environment.

What impact did the incident at Japan's Fukushima nuclear power station have on GDA?

We extended our assessment to allow us to take account of the Chief Inspector of Nuclear Installations' report on the implications of Fukushima for the UK and didn't come to decisions about the designs in June 2011 as originally targeted.

What is happening now?

We have completed the assessments that we and ONR set out to do. We are publishing our decisions and detailed assessment reports on

whether the nuclear power station designs are acceptable or not. **We are content with the environmental aspects of both designs that we have assessed and are issuing interim Statements of Design Acceptability.**

We have specified two “GDA Issues” for the companies to address before we would be prepared to consider issuing a final Statement of Design Acceptability and agree that construction of the nuclear reactor should begin.

Did you consult on your assessments?

Yes. We consulted for 16 weeks from 28th June 2010 to 18th October 2010. We have carefully considered the comments and issues raised and they have helped inform our decisions about whether the designs are acceptable.



What are you saying about the UK EPR™ and the AP1000® nuclear power plant designs?

We are content with relevant environmental aspects of the designs and that they should meet the high standards that we expect.

We are issuing interim Statements of Design Acceptability (iSODA) for both designs. We have considered all the responses to our consultation and ONR’s assessment before coming to a final decision on the acceptability of the UK EPR™ and the AP1000®.


Our decisions are subject to two “GDA Issues” on each design, both joint with ONR. ONR has also identified a number of other GDA Issues for each design. The design companies, Westinghouse and EDF/AREVA have proposed Resolution Plans to address their GDA Issues. With ONR, we have reviewed their plans, and consider them credible. With ONR, we need the companies to resolve all the GDA Issues before we would agree to

construction beginning of the nuclear island of a new nuclear power station.

Is GDA over? What happens next?

We have completed the assessments we intended to carry out but GDA is not yet complete because we’ve issued interim statements of design acceptability (iSODA).

This means we’ve identified some areas where the reactor designers need to carry out further work, providing us with further information and resolving certain technical issues. When these issues have been addressed to our satisfaction, we’ll review the ‘interim status’ and, if appropriate, issue a final Statement of Design Acceptability (SoDA). Our and ONR’s approach to GDA is aligned and similarly it has issued an interim “Design Acceptance Confirmation”. Only once all GDA Issues are resolved will we jointly be content for construction of the reactor to begin.



Where can I see your decision documents?

They are available on our website on our consultation page
<https://consult.environment-agency.gov.uk/portal/ho/nuclear/gda> or search in our publications catalogue for ‘gda’
<http://publications.environment-agency.gov.uk>

Where can I find out more about your role and ‘generic design assessment’?

Information about our work is on our joint website www.hse.gov.uk/newreactors and our website www.environment-agency.gov.uk/nuclear or www.environment-agency.gov.uk/hinkleypoint

Contact us

Email: gda@environment-agency.gov.uk

Email: gda@environment-agency.gov.uk